1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

Hwb i chwaraeon ysgol yn sgil llwyddiant cynllun gweithredu

29 Mawrth 2007

Mae ymdrech i wella addysg gorfforol a chwaraeon ysgol yn cael ei chroesawu fel menter addysg hynod lwyddiannus.

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant i Gymru, yn adrodd bod y Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (AGChY) wedi cael effaith sylweddol ar wella cyfleoedd, profiadau a safonau mewn addysg gorfforol ledled y wlad.

Dechreuodd y prosiect bron i bedair blynedd yn ôl gyda sefydlu “canolfannau datblygu” a oedd yn cael eu hariannu i ddechrau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd disgwyl i’r canolfannau nodi a datblygu dulliau arloesol ar gyfer cyflwyno’r cwricwlwm, gan ddefnyddio cyfleusterau a hyfforddi staff.

Ers hynny, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cefnogi awdurdodau lleol mewn sefydlu 63 o ganolfannau datblygu ledled Cymru. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae’r Cyngor Chwaraeon yn gweithio gydag awdurdodau lleol i roi’r fenter ar waith yn raddol i gynnwys pob ysgol yng Nghymru erbyn 2009.

Mae adroddiad Estyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn arfarnu cynnydd hyd yn hyn ac mae'n argymell y dylai ysgolion sicrhau bod y fenter AGChY yn cael ei chynnwys yn eu cynlluniau ar gyfer gwella ysgolion.

Dywed Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Susan Lewis: "Mae'r fenter hon wedi rhoi llwyfan da i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ac mae'r cymorth ar gyfer athrawon yn arbennig o effeithiol mewn ysgolion cynradd. Os gellir parhau â'r gwaith fel hyn, bydd yn cymell pobl ifanc i fyw bywydau iach a phrysur."

Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid cynradd a llawer o benaethiaid uwchradd yn ystyried bod y fenter addysg gorfforol a chwaraeon ysgol yn llwyddiannus iawn, dywed yr adroddiad. Mae'n llenwi llawer o'r bylchau ym medrau athrawon trwy ddarparu hyfforddiant ansawdd uchel ar gyfer athrawon dibrofiad yn ogystal ag athrawon profiadol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, bydd dros 10,000 o athrawon wedi mynychu un neu fwy o'r cyrsiau a ddarperir trwy'r canolfannau addysg gorfforol a chwaraeon ysgol.

Nodiadau i'r Golygydd:

- Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Nod Estyn yw gwella safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy arolygu a chyngor, i gefnogi'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol a amlinellir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae wedi'i gyhoeddi yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth a chyfleoedd cyfweld, cysylltwch â:
Claire Russell
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464